

Grŵp Cyswllt Prosiect (GCP) Adeiladu Wylfa Newydd

COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Mercher 8 Mai 2014 yn Swyddfa Horizon Wylfa, Cemaes Ystafelloedd A a B.

Yn bresennol (sefydliadau yn nhrefn y wyddor):

Enw Cyntaf	Cyfenw	Sefydliad
Val	Roberts	Cyngor Tref Amlwch
John Idris	Jones	Rhaglen Ynys Ynni Môn
David	Shepherd	Prifysgol Bangor
Dennis	Evans	Cadeirydd – GCP Wylfa
Gwilym	Williams	Clough a'i Gwmni
Wyn	Thomas (Is-bennaeth)	Coleg Menai (Cyfarwyddwr Adnoddau a Datblygu) / Grŵp Llandrillo Menai
Eric	Torr	Cwmni Cemaes Cyf
Damian	Hamilton	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Clifford	Everett	Cyngor Tref Caergybi
Anthony	Hughes	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Elfed	Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Dafydd	Griffiths	Cyngor Cymuned Llaneilian (cadeirydd)
Bleddyn	Rowlands	Cyngor Cymuned Llanfachraeth
John	Arfon Jones	Cyngor Cymuned Llanfaethlu
Steve	Roberts	Aelod o'r Cyhoedd
Derek	Gadsdon	Aelod o'r Cyhoedd
Tim	Poole	Aelod o'r Cyhoedd
Lisa	Morgan	Aelod o'r Cyhoedd
Peter	Jones	Aelod o'r Cyhoedd

Jac	Jones	Menter Mechell / Ynni Adnewyddadwy Carrog / Is- gadeirydd y GCP
Anne	Jones	Morgan Evans a'i Gwmni CYF
Will	Edwards	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Keith	Williams	Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru
David	Walden	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Sarah	Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dylan	Williams	Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn
Stuart	Anderson	Cynrychiolydd Cyngor Sir Conwy
John	Griffith	Talybolion
Aled	Roberts	Anabledd Taran
Anna M	Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
William Thomas	Hughes	Twrcelyn
Aled Morris	Jones	Twrcelyn
Richard Owain	Jones	Twrcelyn
Angela	Meadows	Dŵr Cymru
Tom	Conway	Cymdeithas Ymdeoledigion Wylfa
Margaret	Thomas	Ynys Môn – Canolfan Cyngor ar Bopeth
Irfon	Morris	Ysgol Uwchradd Bodedern
Emyr	Williams	Ysgol Uwchradd David Hughes
Ymddiheuriadau		
Rhun	ap Iorwerth	Aelod Cynulliad Ynys Môn
Melanie	Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan

Gwyn	Morris Jones	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Andy	Bill Cliff	CBI Cymru
Tecwyn	Robert	Cadeirydd Undeb Amaethwyr Cymru
Richard	Parry Jones	Prif Weithredwr Cyngor Ynys Môn
Rita	Lyon	Rheolwr Clwstwr – Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn
Linda	Jones	Cynrychiolydd Rhaglen Ynys Ynni
Heidi	Williams	Undeb Amaethwyr Cymru
Carys	Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Ynys Môn
Tony	Jones	Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Cyngor Ynys Môn
Ieuan	Williams	Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
Derek	Owen	Cyngor Cymuned Llanfachraeth a Bodffordd
Albert	Owen	Aelod Seneddol
Elfyn	Llwyd	Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd
Mel	O'Hara	Aelod o'r Cyhoedd
Michael	Dodds	Aelod o'r Cyhoedd
Geraint	Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Andrew	Forfar	Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
Ken	Hughes	Ward Talybolion
Llinos	Medi Huws	Ward Talybolion
Jackie	Blackwell	Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Clive	Williams	Ysgol Gyfun Llangefni
Aaron	Bayley	Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch
Jean	Jones	Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch

Os yw eich enw wedi'i adael oddi ar y rhestr hon yn anfwriadol neu wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu yn wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com.

Croeso gan y Cadeirydd

- Croesawodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), bawb i gyfarfod cyntaf 2014.

Ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

- Derbyniwyd ymddiheuriadau. Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf y GCP (12^{fed} Rhagfyr 2013) yn gofnod gwir a chywir o'r hyn a ddigwyddodd, a chawsant eu cymeradwyo gan yr aelodau.

Diweddariad am y prosiect a datblygu'r safle – Alan Smith (AS), Pennaeth Datblygu'r Safle, Pŵer Niwclear Horizon

- Eglurodd AS fod safle Wylfa Newydd yn brysur ar hyn o bryd a bod gwaith ymchwilio ar y ddaear wedi dechrau. Roedd hyn yn cynnwys drilio tua 400 o dyllau turio a phydewau treial i roi gwybodaeth fanwl i'r tîm am amodau'r ddaear a'r graig. Roedd eithaf llawer o bobl a chwmnïau lleol yn cael eu defnyddio yn y cyfnod gweithgarwch hwn, a bydd hynny'n parhau drwy gydol y flwyddyn.
- Ar ôl cyfnod o dywydd gwael yn gynharach eleni, achosodd y stormydd lawer o ddifrod i goed a choetir ar y safle, ac roedd rhywfaint o'r difrod hwn wedi achosi problem iechyd a diogelwch. Roedd gwaith torri coed wedi bod yn digwydd drwy gydol misoedd y gaeaf/gwanwyn i gadw'r safle'n ddiogel ac yn glir.
- Ar ddiwedd 2013, cafwyd gwared ar adeiladau anniogel o safon isel ar hyd ffordd Bae Cemlyn, a'r bwriad oedd defnyddio'r un broses ag adeileddau gwag ac anniogel eraill sy'n dal i fod ar y safle. Mae'r gwaith hwn wedi'i drefnu ar gyfer diwedd haf/hydref eleni.
- Eglurodd AS fod contract cynnal a chadw newydd ar gyfer safle Wylfa Newydd wedi'i lofnodi gyda chwmni adeiladu Dawnus yn gynharach eleni i ddarparu gwasanaethau cymorth i Horizon.
- Nododd AS fod gwaith arolygu wedi dechrau yn Dalar Hir, tir yr oedd Horizon wedi'i gaffael ger cyffordd yr A55 yn y Fali, i ddeall sut y gallai Horizon ddefnyddio'r safle yn y dyfodol – er nad oedd unrhyw gynigion cadarn ar hyn o bryd. Nododd hefyd fod astudiaethau'n parhau ar hyd yr A5025 ac y rhennir opsiynau cynnar ar gyfer gwella'r ffordd fel rhan o ymgynghoriad cymunedol yn ddiweddarach eleni.
- Nododd AS, er bod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd ar adegau, fod y prosiect yn parhau i wneud cynnydd sylweddol a'i fod wedi'i galonogi gan lawer o hyder yn ei ddatblygiad.

- Dywedodd AS fod mwy o recriwtio'n digwydd ac y byddai tri pheiriannydd prosiect newydd yn ymuno â'r tîm yn y safle ym mis Mai. Byddai mwy o benodiadau'n digwydd wedi hynny. Roedd deuddeg aelod o'r tîm diogelwch G4S wedi dechrau gweithio ym mis Ebrill, ac roeddent i gyd yn dod o'r ardal leol. Roedd graddedig arall o Ynys Môn hefyd wedi cael ei gyflogi fel rhan o dîm Wylfa Newydd.
- Nododd AS fod datblygu'r gadwyn gyflenwi leol yn bwysig ac roedd y tîm yn awyddus i ddefnyddio busnesau lleol lle bynnag y bo'n bosibl. Ym mis Mawrth, cynhaliwyd digwyddiad proffilio busnes yn Neuadd Tre-Ysgawen yn Llangefni. Gwahoddwyd dros 30 o fusnesau o Ynys Môn a Gogledd Cymru i gwrdd ag ymgynghorwyr fframwaith strategol Horizon – AMEC Nuclear, Atkins, Cavendish Nuclear a Jacobs UK. Pwysleisiodd fod Horizon yn parhau i groesawu cyswllt gan fusnesau ac arnynt eisiau cael gwybod mwy am weithio gyda Horizon.
- Dywedodd AS fod cam nesaf yr ymgynghoriad cymunedol yn un pwysig iawn. Bydd cam cyntaf yr ymgynghoriad yn dechrau ar ddiwedd mis Medi, ac mae gwaith wedi dechrau ers cryn amser i ddatblygu dogfennau a gwybodaeth i'r cyhoedd. Dywedodd AS ei fod yn awyddus i weld yr ymgynghoriad yn cael ei wneud mewn ffordd ystyrlon a chynhwysol gyda chynifer â phosibl o bobl yn cymryd rhan. Dywedodd y byddai Datganiad Ymgynghoriad Cymunedol wedi'i ailgyhoeddi ar gael ar ôl ymgynghoriad â Chyngor Sir Ynys Môn, ac y bydd hwn yn amlinellu sut y rheolir yr ymgynghoriad.
- Nododd AS fod Horizon yn parhau i ymgysylltu ag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, a bod Richard Foxhall – Rheolwr Cysylltiadau â Rhanddeiliaid – yn treulio llawer o amser yn gweithio gydag ysgolion ar hyn o bryd. Mae mwy o waith yn cael ei wneud i ddatblygu strategaeth addysg a rhaglen allgymorth, ac roedd hysbyseb wedi'i gosod mewn papurau lleol yn hysbysebu am Swyddog Addysg Horizon. Bydd y Swyddog Addysg yn gyfrifol am ymestyn ymgysylltiad Horizon ag ysgolion yn yr ardal.
- O ran technoleg, eglurodd AS fod Cam 2 yr Aseiad Dylunio Generig (ADG) nawr wedi dechrau ar gyfer yr UK ABWR. Ar ôl llofnodi'r cytundebau asesu ym mis Mawrth 2013, lanswyd Cam 2 ym mis Ionawr 2014. Dywedodd AS y bydd Hitachi-GE yn darparu mwy o wybodaeth yn ddiweddarach yn y cyfarfod.
- I gloi, amlinellodd AS beth fyddai'n digwydd dros y cwpl o fisoedd nesaf, gan gynnwys parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd (gan gynnal Cymorthfeydd Agored yn ogystal â bod Horizon yn bresennol yn Sioe Ynys Môn), parhau i ddatblygu'r safle, mwy o weithgarwch recriwtio, gweithio ar gerrig milltir allweddol hyd at 2018 (trwyddedu, cydsyniad a dylunio'r safle) ac ymgynghori â'r gymuned yn yr hydref.

Holi ac Ateb

- Dywedodd Will Edwards (WE) ei fod yn synnu na allai AS fod yn fwy pendant y byddai'r prosiect yn digwydd mewn gwirionedd. Gofynnodd pa mor gadarnhaol ydoedd ynglŷn â hyn.
 - Dywedodd AS ei fod yn hyderus bod y prosiect ar y trywydd iawn, ond nad oes dim byd yn bendant nes i Hitachi wneud Penderfyniad Buddsoddi Terfynol ac na fyddai hyn yn digwydd tan tua 2018. Fodd bynnag, roedd yn benderfynol bod pob cam yn gam tuag ymlaen ac roedd y tîm yn hyderus iawn.
- Holodd Thomas Conway (TC) a fyddai'r ymchwiliadau daear presennol yn golygu bod angen llai o waith arolygu i ganfod faint o dir y byddai angen ei gloddio yn ystod y broses adeiladu.
 - Dywedodd AS fod Horizon eisoes yn deall faint o waith cloddio y byddai ei angen, a sut y defnyddir y tir a symudir yn y broses dirlunio ac ati. Dywedodd AS mai cadw'r pridd ar y safle oedd y cynllun ar hyn o bryd ac na châi dim ei symud oddi yno – ond roedd hyn yn cael ei adolygu'n gyson. Nododd AS fod y safle wedi cael ei arolygu yn yr 1980au a bod y wybodaeth hon hefyd wedi'i rhoi i Hitachi GE.
- Gofynnodd TC a oedd y gwaith o archwilio'r ddaear yn cynnwys y graeanfryniau.
 - Dywedodd AS mai dyma lle'r oedd y gwaith drilio'n digwydd ar hyn o bryd.
- O ran torri coed, gofynnodd TC a oedd Horizon wedi gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer yr elfen hon ar y gwaith.
 - Cadarnhaodd AS fod Horizon wedi ymgeisio am drwyddedau / caniatâd ar gyfer yr holl waith. Eglurodd hefyd fod y gymuned wedi cael gwybod.
- Dywedodd Dylan Williams (DW) ei fod yn edrych ymlaen at yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd ar y gweill. Gofynnodd a allai Horizon roi syniad o'r patrymau shifftiau a'r gweithlu yn ystod y cyfnod adeiladu.
 - Dywedodd AS na allai roi ateb pendant eto. Byddai gwaith shifftiau, ac er ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn 24 awr y dydd, roedd yn credu y gallai fod oriau estynedig ar adegau.
- Cyfeiriodd DW at y sefyllfa yn Hinkley, lle mae cyfyngiad o un awr ar gyfer teithio i weithio ar y safle. Pe bai hyn yn wir am Ynys Môn, byddai'n creu goblygiadau i'r ynys, gan y byddai'n rhaid i'r holl weithwyr aros ar Ynys Môn ei hun. Holodd beth oedd yn cael ei ystyried yn rhesymol?
 - Dywedodd AS fod y tîm prosiect yn asesu rheoli personél yn ystod y gwaith adeiladu ac yn gweithio i ddeall ble byddai'r cyfnodau prysuraf o ran gwaith. Roedd Horizon hefyd yn edrych ar brosiectau tebyg o gwmpas y byd i asesu'r hyn a ddysgwyd. Ychwanegodd fod lleoliad daearyddol Hinkley'n wahanol iawn ac yn cyflwyno set wahanol o heriau i'r datblygwr i'r rhai a ddisgwylir yn Wylfa. Dywedodd ei bod yn annhebygol y byddai tagfeydd ar ffyrdd yn gymaint o broblem ar Ynys Môn, er enghraifft, ond mai'r nod yw lleihau'r effeithiau ar Ynys Môn a'r cymunedau cyfagos.

- Dywedodd TC ei fod wedi ymholi ynglŷn â niferoedd staff yn yr orsaf bresennol yn Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (Grŵp Magnox) beth amser yn ôl a'i bod yn ymddangos mai dim ond 13% o 650 aelod staff oedd yn dod o'r ynys.
 - Dywedodd John Idris Jones (JIJ) na allai'r ffigur hwn fod yn gywir, gan gofio arolwg gwpl o flynyddoedd yn ôl a ddangosodd fod tuag 85% o'r gweithwyr yn byw ar yr ynys.
- Holodd Lisa Morgan, a oedd yn cynrychioli Canolfan Ymwelwyr Magnox, ynglŷn ag addysg ac a oedd unrhyw syniadau ynglŷn â'r polisi addysg.
 - Dywedodd Leon Flexman (LF), Pennaeth Materion Corfforaethol Pŵer Niwclear Horizon, mai'r nod oedd sicrhau ymgysylltiad ar lefelau addysg gynradd, uwchradd ac uwch, ac y byddai'r Cydlynedd Rhaglenni Addysg yn datblygu ac yn cyflenwi'r strategaeth hon – er bod gwaith da eisoes yn digwydd. Eglurodd LF fod y tîm yn chwilio am fewnbwn i weld beth sydd ei angen, ac na fyddai'n mentro dod i mewn â chyfres o syniadau yn ei ben eisoes. Roedd yn debygol y byddai pynciau STEM yn flaenoriaeth.

1 Cyflwyniad i Hitachi-GE

- Ar ôl diolch i'r grŵp am y cyfle i ddod i'r cyfarfod, rhoddodd Kenichi Sato (KS) gyflwyniad ynglŷn ag Ynni Niwclear Hitachi-GE (Hitachi-GE) a phroses yr Asesiad Dylunio Generig (ADG) ar gyfer yr UK ABWR.
- Amlinellodd KS strwythur y prosiect a swyddogaeth y cwmni yn y DU – yn y pen draw, darparu technoleg i Bŵer Niwclear Horizon. Y cwmni hefyd yw'r parti sy'n gofyn am ADG yr UK ABWR.
- Eglurodd KS fod gan Hitachi-GE contract Peirianeg a Dylunio Pen Blaen gyda Horizon, y byddent yn eu cynorthwyo â'r gwaith cychwynol ar y safle ac y byddent yna'n arwain y gwaith o adeiladu'r adweithydd fel contractwr i Horizon. Horizon yw'r datblygwr o hyd, a hwy fyddai'n gyfrifol am y broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a holl weithgareddau trwyddedu'r safle.
- Dywedodd KS fod y broses ADG yn parhau i fynd rhagddi'n esmwyth a bod y rheoleiddwyr ym mis Ionawr 2014 wedi symud ymlaen i Gam 2 y broses ADG, a ategwyd gan lansiad gwefan newydd yr UK ABWR.
- Eglurodd KS fod yr ADG yn seiliedig ar nifer o gamau, a phob un yn cyflwyno gwaith craffu mwy a mwy manwl, ac y byddai Hitachi-GE yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl pob cam. Roedd Cam 1 yn cynnwys paratoi'r Dyluniad, yr Achos Diogelwch a'r Cyflwyniad Diogelwch, a oedd wedi'i gwblhau. Mae Cam 2, y cyfnod presennol, yn cynnwys y Dyluniad Sylfaenol, yr Achos Diogelwch a'r Olwg Gyffredinol ar Hawliadau Diogelwch, a'r nod yw cwblhau'r cam hwn erbyn mis Medi.

- Siaradodd KS am wefan yr UK ABWR, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac a lansiwyd pan symudwyd ymlaen i Gam 2. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y dyluniad, yr ADG a Hitachi-GE, yn ogystal â gwybodaeth am ddiogelwch, fideos a diagramau o'r adweithydd.
- Eglurodd KS nodweddion allweddol yr ABWR – yr adweithydd niwclear mwyaf datblygedig sy'n bodoli. Mae'n ddiogel, yn ddibynadwy, yn gystadleuol o ran costau ac yn cynnwys systemau wedi'u symleiddio sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n gallu cael eu hadeiladu mewn amser byr. Mae wedi cael cymeradwyaeth reoleiddio yn Japan, Taiwan ac UDA ac mae'n galw ar ddegawdau o ddatblygiad technoleg BWR. Mae gan y dyluniad ei hun hanes hir, ond mae pob uned wedi'i gwella dros y blynyddoedd, felly'r UK ABWR yw'r dyluniad mwyaf datblygedig eto.
- Bydd yr UK ABWR yn adeiladu ar ddegawdau o ddatblygiad BWR ac mae hefyd wedi gallu manteisio ar wersi a ddysgwyd o Fukushima. Mae hyn yn cynnwys: cynllun y safle – opsiwn i roi adeilad wrth gefn ar dir uwch; amddiffyn cyfleusterau craidd – adeiladau a drysau sy'n dal dŵr o gwmpas offer wrth gefn; colli suddfan gwres derfynol a cholli pŵer oddi ar y safle – dulliau amrywiol ac annibynnol o gyflenwi pŵer ac oeri'r craidd.
- Eglurodd KS fod pedwar ABWR yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, a phedwar arall yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd yn Japan a Taiwan. Bydd amserlenni'r DU yn dibynnu ar ffactorau sy'n benodol i'r prosiect, ond defnyddir dull adeiladu modiwlaid a bydd y gwaith yn arwain at gyfleoedd sylweddol i'r gadwyn gyflenwi yn y DU.
- Y gobaith yw y bydd cadwyn gyflenwi'r DU yn cyflenwi 60% o gyfanswm gwerth y prosiect, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Pwysleisiodd KS fod Hitachi a Horizon yn gweithio gyda llywodraeth leol, llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU a chyrrff sector a sefydliadau addysg megis Coleg Menai a Phrifysgol Bangor. Ar hyn o bryd, mae'r ffocws ar ddeall gallu a chapasiti cadwyn gyflenwi'r DU. Pwysleisiodd fod rhaid i bob cyflenwr fodloni disgwyliadau a bod Horizon / Hitachi yn mynnu sicrwydd y caiff pethau eu cyflawni'n 'iawn y tro cyntaf, bob tro'.
- Diolchodd DE i KS am y cyflwyniad addysgiadol iawn a dywedodd ei bod yn amlwg bod y prosiect yn symud ymlaen.

Holi ac Ateb

- Gofynnodd Tom o AMEC faint o welliannau dylunio a wnaethpwyd o gymharu â Fukushima, er enghraifft, a fyddai'r codennau tanwydd gwag yn cael eu hadleoli?
 - Eglurodd KS fod llawer o wersi allweddol wedi cael eu dysgu ar ôl Fukushima. Nid oedd yn credu ei bod yn debygol y câi'r codennau tanwydd gwag eu hadleoli, ond maent yn ystyried cryfhau lefel uwch yr adweithydd.

- Holodd DE ynglŷn â dulliau'r broses ADG, er enghraifft, a fyddent yn gwneud newidiadau ar sail raddol, ynteu a fyddai Hitachi-GE yn aros tan ddiwedd y broses ac yna'n gwneud y newidiadau i gyd ar unwaith?
 - Dywedodd KS y byddai newidiadau'n cael eu gwneud wrth i'r broses fynd rhagddi ac y byddai pob newid yn cael sylw manwl fel rhan o'r Adroddiad Diogelwch Cyn Adeiladu manwl a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ADG.
- Gofynnodd DE a fyddai'n bosibl ymgorffori'r gwelliannau dylunio sydd eu hangen o fewn y cyfnod a ddyrannwyd i'r broses ADG?
 - Dywedodd KS ei bod yn anodd rhoi ateb pendant tan iddynt wybod natur a lefel y newidiadau sydd eu hangen.
- Cyfeiriodd Dafydd Griffiths (DG), Cyngor Cymuned Llanelian, at y frawddeg "*Y gobaith yw y bydd cadwyn gyflenwi'r DU yn cyflenwi 60% o gyfanswm gwerth y prosiect*". Roedd yn ei chael yn ddiddorol bod y gair "*gobaith*" wedi'i ddefnyddio ac yn gofyn o ble mae'r cydrannau'n dod – o Ewrop, UDA, y Dwyrain Pell?
 - Eglurodd KS y byddai'r cydrannau'n dod o gyfuniad o leoedd. Caiff rhai elfennau eu mewnfario o Japan, er enghraifft, ond maent yn edrych ar beth all ddod o'r DU, a beth ddylai ddod o'r DU.
 - Nododd LF nad oedd gan y DU ddiwydiant adeiladau niwclear newydd ar hyn o bryd, ac nad oes atomfeydd newydd wedi'u hadeiladu yma ers amser maith. Felly, roedd yn anodd dweud ag unrhyw hyder pa gydrannau allai ddod o'r DU. Mae hwn yn gyfle i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ac mae Horizon / Hitachi ill dau'n gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU i wneud y sector yn fwy parod.
 - Dywedodd DG, fel rhywun sydd wedi addysgu yn Sheffield, ei bod yn siom nad yw'r diwydiant adeiladu ym Mhrydain yn gallu rhoi sicrwydd o gyflenwi canran uwch ar hyn o bryd.

2 Diweddariad am y Rhaglen Ynys Ynni

- Rhoddodd John Idris Jones (JIJ) grynodedb o'r Rhaglen Ynys Ynni a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen i'r aelodau.
- Dywedodd fod y rhaglen wedi'i rhoi ar waith er budd i'r ynys. Y weledigaeth yw sefydlu Ynys Môn a Gogledd Cymru fel canolfan ragoriaeth fyd-enwog ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ym maes ynni carbon isel, gan sicrhau swyddi lleol i bobl lleol a chyfluoedd i gwmnïau lleol. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithio gyda datblygwyr a'u hannog i weithio gydag Ynys Ynni i gael cyflogaeth a chreu cymunedau cynaliadwy, nid yn unig ar Ynys Môn ond ledled Gogledd Cymru.
- Mae nodau'r rhaglen yn cynnwys cefnogi datblygiadau ynni carbon isel, cynyddu twf cyflogaeth, paratoi busnesau lleol a chynnal cymunedau.

- Trafododd JIJ ffigurau cyflogaeth brig amryw o weithgareddau ar yr ynys – roedd niwclear yn 2,908 â chyfran o 78%, ac yn werth £132.7 miliwn. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw'r adeilad newydd i economi Ynys Môn.
- Mae'n debygol y caiff £25 biliwn ei fuddsoddi dros y 10 i 15 mlynedd nesaf, felly mae cyfleoedd mawr yn bodoli. Rhestrod JIJ ddatblygiadau ynni arfaethedig sy'n ymwneud â'r ynys gan gynnwys fferm wynt alltraeth Centrica ym Môr Iwerddon, pŵer gwynt alltraeth gan Gwynt y Môr, Lateral Power a'u Parc Eco/Biomass arfaethedig, y prosiect Arae Lanw arfaethedig gan Marine Current Turbines a niwclear. Roedd datblygiad newydd hefyd wedi dod i'r amlwg ac roedd y rhaglen ar fin dechrau gweithio gyda Minesto, Prosiect Arae Lanw newydd wedi'i leoli tua 6 milltir o Gaergybi.
- Eglurodd JIJ fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu cynllun Buddion Cymunedol Gwirfoddol. Mae cynlluniau o'r fath, i bob diben, yn gyfraniadau ewyllys da a roddir yn wirfoddol gan ddatblygwr er budd i gymunedau sy'n cynnal datblygiad i gydnabod yr effaith a gânt ar adnoddau lleol neu ar yr amgylchedd.
- Eglurodd JIJ y bydd angen sgiliau ar bobl er mwyn cyflawni'r datblygiadau newydd, ac mai lle'r sector preifat yn rhannol, gyda chymorth Ynys Ynni, yw creu'r sgiliau hyn. Mae Centrica wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch ym maes STEM, er enghraifft, ac mae Cwmni Prentis Menai – a arweinir gan Goleg Menai gyda chymorth gan Horizon – hefyd wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r rhaglen hefyd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i greu cyfleoedd. Mae hynny'n cynnwys ymgysylltu â datblygwyr a gweithio gyda Horizon i adnabod y cyfleoedd.
- Mae'n bwysig datblygu seilwaith cystadleuol sy'n ddigonol i orsaf drydan yn yr 21^{ain} ganrif. Roedd y rhaglen yn annog y Llywodraeth i gyflwyno band eang cyflym a signal ffôn symudol ar yr ynys ac yn annog gwelliannau o ran trafniadaeth. Nododd fod Ynys Môn hefyd wrth gwrs wedi'i chydabod yn Barth Menter.
- Y blaenoriaethau ar gyfer 2014/15 yw cydlynu swyddogaeth Tîm Cyflenwi'r Rhaglen Ynni Fawr a gwneud cynnydd; cydweithio â datblygwyr prosiect a sefydliadau sector cyhoeddus eraill i fuddsoddi mewn pobl, busnesau a seilwaith cystadleuol i fanteisio ar gyfleoedd lleol a rhanbarthol am swyddi, twf a ffyniant; manteisio i'r eithaf ar fuddion economaidd-gymdeithasol datblygiadau ynni mawr; a chydlynu a datblygu gweithgareddau'r Rhaglen Ynys Ynni i helpu i sicrhau datblygiadau ynni mawr. Y nod yw codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfleoedd, a drwy weithio gyda chwmnïau megis Centrica a Horizon roeddent yn gobeithio sicrhau swyddi ar yr ynys i bobl ifanc.

Holi ac Ateb

- Dywedodd DE ei fod yn gobeithio'n fawr y byddai pobl ifanc Ynys Môn yn gwneud eu gorau ac yn cystadlu ag eraill er mwyn cael swyddi ar Ynys Môn. Nid dim ond cystadleuaeth i bobl Ynys Môn yw hyn, ond cystadleuaeth ledled Prydain. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwneud y penderfyniadau hyn nawr a chael pob cymhwyster posibl.
- Nododd Sarah Andrews (SA) o Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yma amrywiaeth dda o gyfranwyr a thechnolegau, a holodd a yw cynnig Coleg Menai i bobl ifanc yn adlewyrchu'r amrywiaeth o sgiliau y gellir eu datblygu.
 - Dywedodd JIJ fod y sgiliau sylfaenol yn drosglwyddadwy ac yn gynorthwyol. Nid dim ond niwclear sydd dan sylw; mae hyn ar draws diwydiannau carbon isel.
- Nododd Wyn Thomas o Grŵp Llandrillo Menai y byddent yn ddigon bodlon i drefnu cyfarfod yno i Horizon os hoffai'r grŵp weld y cyfleusterau sydd ar gael.
 - Nododd DE fod y cyfleoedd a gynigir yno wedi gwneud argraff dda iawn arno, a rhoddodd groeso mawr i'r cynnig.
- Diolchodd y Cyngorydd Aled Morris Jones (AMJ) i JIJ am y cyflwyniad. Ailadroddodd y ffaith bod y Rhaglen Ynys Ynni wedi'i sefydlu gan y Cyngor Sir. Ymddangosodd y rhaglen hon ar adeg pan nad oedd dim diddordeb mewn adeiladu gorsaf niwclear. Roedd am i Horizon gynnig sylw am y gweithlu lleol gan fod angen i'r datblygiad hwn fod yn llwyddiannus i bobl Ynys Môn. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw gofalu am y cymunedau y bydd hyn yn effeithio arnynt. Dywedodd hefyd y bydd tarfu enfawr ac y dylid gofalu am gymunedau lleol.
 - Nododd AS ei fod wedi bod yn mynychu'r GCP ers nifer o flynyddoedd a dywedodd fod Horizon wedi ystyried safbwyntiau cymunedau dros y cyfnod hwnnw. Pwysleisiodd fod angen amrywiaeth o sgiliau ar y prosiect ac nad oedd y sgiliau hyn ar gael bob amser. Nododd fod recriwtio G4S yn enghraifft o hyn; er bod y rhan fwyaf yn dod o'r ardal leol, nid yw'n bosibl bob amser i bawb fod ar gael yn lleol. Dywedodd AS fod datblygu'r sgiliau hyn yn lleol yn un o fanteision allweddol y rhaglen Ynys Ynni a bod y prosiect yn cael effaith gadarnhaol. Dywedodd AS fod Horizon yn gwneud cystal ag y gallant ar hyn o bryd, a gan eu bod yn bwriadu bod o gwmpas am 100 mlynedd yr hoffent wneud pethau'n iawn.
- Nododd Stuart Anderson fod cynnal cymunedau'n bedwerydd ar y rhestr. Cawsoch chi aeaf drwg. Nid yw'r ffrwd lanw'n edrych fel y bydd yn digwydd. Bydd y prosiect Amrediad Llanw'n brosiect mawr ac rwyf yn gobeithio y bydd ar eich agenda.

3 **Golwg gyffredinol ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft yr Adeilad Niwclear Newydd**

- Rhoddodd Gareth Hall (GH) olwg gyffredinol ar ddiben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Eglurodd ei bod yn bwysig bod gan y Cyngor gynlluniau ar waith i ymdrin â phrosesau cymhleth, ac ystyried y câi unrhyw ddatblygiad y tu allan i brif safle Wylfa (er enghraifft llety gweithwyr, parcio a theithio ac ati) ei ystyried gan y Cyngor.

Gyda'r CCA, mae'r Cyngor yn gosod fframwaith i roi arweiniad i Horizon ynglŷn ag ymgynghori ac ati.

- Bydd y CCA yn rhoi dehongliad o bolisiau cenedlaethol a lleol i Gyngor Sir Ynys Môn ynghyd â chanllawiau i roi sail i ymgynghoriadau cyhoeddus Horizon ac i ymateb iddynt. Mae'n darparu sail i Adroddiadau o Effaith Leol a Datganiadau Tir Cyffredin; polisiau i bennu ceisiadau cynllunio i alluogi gwaith a datblygiadau cysylltiedig; mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau anffafriol a mesurau gwella ar gyfer buddion (ymrwmiadau Adran 106).
- Eglurodd GH mai dyma'r weledigaeth ar gyfer y CCA: "Mae'r Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun cadarnhaol i drawsnewid economi a chymunedau Ynys Môn, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, gwella ansawdd bywyd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol a chynyddu hunaniaeth a hynodrwydd yr ardal". Eglurodd GH fod popeth yn llifo o'r weledigaeth hon.
- Dywedodd GH fod y CCA hefyd yn cynnwys egwyddorion arweiniol materion megis creu swyddi a datblygu sgiliau'n lleol, y gadwyn gyflenwi leol, cefnogi ac ategu twristiaeth, cydlyniant cymunedol, defnyddio pwerau'r cyngor a newid yn yr hinsawdd. Eglurodd GH fod y canllawiau hefyd yn edrych ar faterion yn ymwneud â lleoliad rhai gwasanaethau penodol, megis ble gallai datblygiadau cysylltiedig fynd.
- Eglurodd GH fod y CCA wedi bod yn destun ymgynghoriad cymunedol. Cafodd dogfennau eu rhoi ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn ac ar gyfryngau cymdeithasol, ac mae hysbysiadau a hysbysebion wedi'u cyhoeddi yn y wasg leol ac mae copïau ohonynt wedi'u harddangos yn Swyddfeydd y Cyngor ac mewn 10 llyfrgell leol. Cynhaliwyd tri digwyddiad cyhoeddus yn Llangefni, Caergybi a Chemaes ac mae Rheolwyr Uwch a Chanol y Cyngor Sir wedi cael eu briffio.
- Mae'r themâu sydd wedi dod i'r amlwg o broses yr ymgynghoriad cyhoeddus hyd yn hyn yn cynnwys sicrhau swyddi i bobl leol – yn enwedig pobl ifanc, gwneud y gorau o gyfleoedd contract i fusnesau lleol, darparu hyfforddiant sgiliau priodol, lleoli llety gweithwyr yn briodol, a'r effeithiau ar gymunedau a'r iaith Gymraeg. Roedd materion eraill yn cynnwys effaith gwelliannau ffordd ar hyd yr A5025, diogelwch technoleg niwclear ar ôl Fukushima, a storio gwastraff niwclear ar y safle a'i waredu yn y pen draw. Roedd y bobl yr ymgynghorwyd â hwy hefyd yn dymuno gweld adolygiad priodol o ymgynghoriad Horizon ei hun yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Eglurodd GH fod sylwadau nawr yn cael eu dadansoddi a'r CCA drafft yn cael eu hadolygu. Ar ôl gwaith craffu llawn ym mis Mehefin 2014, darperir y drafft terfynol i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol a'i fabwysiadu erbyn diwedd Gorffennaf 2014. Bydd yna'n rhoi sail i ymgynghoriad Horizon ym mis Medi, yr holl ffordd at yr asesiad o'r effaith leol, er mwyn troi pob carreg.

- Dywedodd DE ei bod yn glir, rhwng yr Ynys Ynni a'r Cyngor Sir, bod llawer o symudiad wedi bod a'i bod yn ymddangos bod pawb wedi paratoi'n dda iawn. Holodd a oedd gan Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn) unrhyw beth i'w ychwanegu.
- Roedd DW am ddweud ei bod yn bwysig bod y GCP yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r ddogfen hon. Bydd y Cyngor Sir yn cyfeirio ati drwy gydol y broses, ac mae angen iddi fod yn iawn. Ychwanegodd DE mai'r ddogfen hon fydd y glasbrint ar gyfer ymgysylltiad y Cyngor â'r prosiect.

Holi ac Ateb

- Holodd TC sut y câi Pont Britannia ei defnyddio ac ystyried, er enghraifft, yr hyn a ddywedodd KS ynglŷn ag adeiladu modiwlaid a chhydrannau'n dod o Japan ac ati. Dywedodd y bu sôn am adeiladu Cyfleuster Dadlwytho Morol ar y safle a'i ddefnyddio i ddod â chhydrannau i mewn ar y môr, gan leihau traffig ar y ffordd – fodd bynnag, roedd yn teimlo y byddai llawer o bobl a chyfarpar yn dal i gael eu cludo ar y ffordd.
 - Dywedodd GH y byddai logisteg yn bwysig, ond mai Horizon ddylai brofi na fydd dim effeithiau anffafriol ar Bont Britannia; byddai asesiadau o'r effaith ar draffig yn hanfodol. Ni fydd hyn yn datrys y problemau ar amseroedd brig sydd gennym ar hyn o bryd, ond bydd rhaid i Horizon brofi na wnânt bethau'n waeth.
 - Dywedodd DE fod 5,000 o bobl yn gadael Ynys Môn i fynd i Fangor i weithio bob dydd, a bod tua 1,000 o bobl yn dod dros y bont i Ynys Môn.
- Gofynnodd Derek Anderson (DA) pwy sy'n rheoli gwaith cynllunio'r Cyfleuster Dadlwytho Morol?
 - Nododd AS y byddai hwn yn gyfleuster parhaol, ac y gellid ei ddefnyddio yn y tymor hir ar gyfer datgomisiynu Wylfa A. Byddai hyn yn golygu mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fyddai ei gynllunio.
- Gofynnodd Peter Jones (PJ) o Gyngor Cymuned Llanfaethlu ynglŷn â chynllunio'r A5025 a chymeradwyo gorchmynion prynu gorfodol, yn ogystal â gwelliannau ar-lein gan ei bod yn ymddangos nad yw pobl yn gwybod beth sy'n digwydd o hyd.
 - Dywedodd AS fod gwaith arolygu'n cael ei wneud ar hyn o bryd er mwyn casglu gwybodaeth, ac y câi'r mater ei drafod yn ystod ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni. Dywedodd AS fod angen uwchraddio'r ffordd o'r Fali i Wylfa, a bydd Horizon yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor i ganfod beth mae angen ei wneud a ble. Yna, rhennir y gwahanol opsiynau hyn â'r gymuned yn ystod yr ymgynghoriad.
 - Ychwanegodd AS nad oedd Horizon erioed wedi bygwth Prynu Gorfodol ac nad ydynt yn dymuno mynd i'r cyfeiriad hwnnw.
 - Ychwanegodd DE fod hyn yn amlwg yn anffodus ond bod rhaid gweithio drwy'r mater.

- Ychwanegodd DE fod y Grid Cenedlaethol hefyd yn fater ag angen sylw, ac er eu bod wedi'u gwahodd i gyfarfod, nid oeddent yn teimlo eu bod mewn sefyllfa i allu dod ar hyn o bryd.
- Gofynnodd Will Edwards sut y byddai'n bosibl cymeradwyo'r CCA ym mis Gorffennaf 2014 os nad oedd y Grid Cenedlaethol wedi egluro eu bwriadau.
 - Nododd GH fod y CCA yn bodoli i atgyfnerthu polisiâu cynllunio'r Cyngor ar gyfer prosiectau mawr. Byddai angen Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer prosiect y Grid Cenedlaethol, ac mae'r Llywodraeth yn ystyried hyn.

7 Unrhyw fater arall

- Gofynnodd John Arfon Jones (JAJ) o Gyngor Cymuned Llanfaethlu pa mor debygol y byddai i'r Cyngor benderfynu dweud 'na' i Wylfa Newydd.
 - Atebodd GH, er bod yr orsaf wedi'i derbyn mewn egwyddor, y bydd y broses gydsyniad yn seiliedig ar y canllawiau, yr effaith ar gymunedau ac ati. Bydd rhaid i'r datblygwr fodloni'r rhain.
- Pwysleisiodd JAJ y bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen am gryn amser, beth fydd yn digwydd os bydd cynghorwyr y dyfodol yn erbyn y datblygiad?
 - Dywedodd AMJ y byddai'n anghyfrifol o safbwynt gwleidyddol i dynnu cefnogaeth yn ôl ar ôl dod mor bell. Mae hyn yn ddyletswydd ac yn ewylllys gwleidyddol i'w weld yn llwyddo.

8 Diwedd

- Anfonir dyddiad y cyfarfod nesaf at yr aelodau maes o law
- Diolchodd DE i bawb am fod yn bresennol. Daeth y cyfarfod i ben am 7.45pm.

I gael mwy o wybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu yn [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com) ac ewch i www.horizonnuclearpower.com

Mae'r cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o'r cyfarfod GCP ar gael yn www.wylfaplq.com